# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 05.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** David Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Sian Gwenllian, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Eric M. Jones, Linda W. Jones, Angela Russell, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lis Saville Roberts

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. SWYDD PENNAETH TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr bod deilydd presennol y swydd uchod wedi derbyn swydd gydag awdurdod cyfagos ac mae'r swydd hon bellach yn wag. Fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, mae ganddo rôl statudol i gynghori'r Cyngor ynglyn â sut y dylid ymdrin â'r swydd wag hon sydd yn un bwysig iawn, nid yn unig oherwydd maint a chymhlethdod y gwasanaeth ond hefyd oherwydd bod natur y swydd ei hun yn adlewyrchu hanfod gwasanaeth cyhoeddus, sef cynorthwyo'r bobl fwyaf anghenus yn y gymdeithas. Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin â'r swydd wag, rhaid i'r Cyngor fod yn gytbwys. Ar yr un llaw, rhaid ystyried y risg a'r ansefydlogrwydd allai godi o golli swyddog profiadol a medrus ac felly rhaid ystyried beth fyddai sgîl effeithiau oedi wrth wneud penderfyniadau. Ar y llaw arall, mae hefyd yn rhoddi cyfle i feddwl yn strategol am y math o wasanaeth ac arweinyddiaeth sydd eu hangen er mwyn ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd y bydd y gwasanaeth hwn ac felly hefyd y Cyngor, yn eu hwynebu yn y dyfodol. Ystyriwyd sylwadau gan unigolion allweddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth wneud yr argymhellion ac fe ymhelaethodd ar natur y sylwadau hynny yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd at gryfderau allweddol y gwasanaeth a'r meysydd sydd angen eu gwella. Rhoddodd fanylion am y tri prif yrrwr ar y lefel cenedlaethol sef –
a) Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).
b) Trefniadau ariannu cenedlaethol presennol ar gyfer gofal cymdeithasol yn gwbl anghynaliadwy.
c) Y cyd-destun ariannol cyffredinol.

Parthed yr opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor, nododd y gallai'r Cyngor naill ai fynd i bartneriaeth gyda Chyngor arall neu hysbysebu'n allanol i lenwi'r swydd. Yn ogystal gellid penodi un o'r cyfarwyddwyr corfforaethol i'r swydd statudol a chreu swydd pennaeth gwasanaeth heb y cyfrifoldebau statudol. Neu, gellid hysbysebu'r swydd yn fewnol heb unrhyw newidiadau i'r swydd bresennol neu gymryd mantais ar y swydd wag er mwyn ailstrwythuro gwasanaethau i greu adran newydd.

Aseswyd yr opsiynau a thrafodwyd y posibilrwydd o hysbysebu'n allanol gydag arweinyddiaeth y ddau awdurdod cyfagos yn y gogledd orllewin, ac am amrywiol resymau, 'roedd y ddau yn gytun y byddai'r ymagwedd hon yn un risg uchel ar hyn o bryd. 'Roedd o'r farn felly y dylid hysbysebu'r swydd yn fewnol drwy ailstrwythuro er mwyn cyflawni mwy o effeithlonrwydd a gwell rheoli newid drwy integreiddio'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol bresennol gydag agweddau o'r Adran Darparu a Hamdden bresennol. Nododd mai'r swyddogaethau gofal cymdeithasol presennol ar yr ochr darparu yw'r rhai sydd â synergedd amlwg. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd yr agenda ataliol yn y dyfodol, 'roedd o'r farn y gellid gweld synergedd gyda'r gwasanaeth hamdden pe byddai'n cael ei gynnwys yn yr adran newydd. Gallai'r swyddogaethau sy'n weddill o'r Adran Darparu a Hamdden, sef glanhau ac arlwyo, gael eu hail-leoli i adrannau cleient e.e. arlwyo i'r Adran Addysg. Gellid ystyried hefyd leoliad y gwasanaeth tai o fewn y Cyngor yn y dyfodol.

Nododd nad integreiddio gwasanaethau'n fewnol yw'r unig gyfle i wireddu effeithlonrwydd a gwella profiadau'r defnyddwyr – mae integreiddiad allanol pellach gyda iechyd hefyd yn cynnig cyfleoedd. Mae Gwynedd wedi cychwyn i lawr y ffordd hon ond mae rhai awdurdodau yng Nghymru eisoes wedi mynd ymhellach. Yn ogystal, mae'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) newydd yn cynnig cyflwyno pwerau newydd i gryfhau integreiddio mewnol ac allanol gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gwneud gwell defnydd o'r capasiti sydd eisoes yn bodoli ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Tynnodd sylw y dylai'r sgiliau a'r cymwyseddau craidd angenrheidiol i'r swydd hon adlewyrchu'r prif heriau a chyfleoedd a wynebai'r gwasanaeth yn y dyfodol agos. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos menter ac arloesedd, sgiliau rheoli newid ac arwain effiethiol a ffocws cryf ar y cwsmer ac 'roedd y rhain yn ofynion hanfodol y swydd. Byddai ymagwedd mwy traddodiadol yn gofyn am gymwysterau proffesiynol mewn gofal cymdeithasol fel un o'r gofynion hanfodol hefyd. Fodd bynnag, er yr ystyrid y dylai cymwysterau proffesiynol fod yn ddymunol yn hytrach nag yn hanfodol, dylent fod yn ystyriaeth yn y broses penodi. Felly, pe na fyddai gan

yr ymgeisydd llwyddiannus gymwysterau proffesiynol, byddai angen gwneud yn iawn am hynny drwy weithgareddau datblygu megis cefnogaeth gan gyfoedion a mentora.

Rhoddodd fanylion am yr amserlen parthed hysbysebu/penodi i'r swydd. Awgrymodd y gellid sefydlu is-bwyllgor o dri neu pump aelod o'r pwyllgor i lunio'r rhestr fer.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

(i) Cyfeiriodd aelod ei bod yng angenrheidiol adeg ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fod â chymwysterau yn y maes hwnnw. Nododd erbyn hyn y rhoddir mwy o bwyslais ar yr agweddau busnes o'r swydd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr bod profiad yn y maes iechyd gofal hefyd yn ffactorau perthnasol ac o safbwynt dilyniant a'r gallu i symud ymlaen yn sydyn i lenwi'r swydd 'roedd gwybodaeth am brofiad a chyfundrefnau'r Cyngor yn ddefnyddiol iawn. Parthed y bwriad i gyfuno'r ddwy adran, nododd bod sawl Cyngor eisoes wedi gwneud hynny. Rhagwelai gyfleon yma i leihau costau.

(ii) Nododd aelod, gan bod hon yn swydd statudol, 'roedd yn bwysig penodi person profiadol yn y maes i'r swydd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr nid yw hyn yn gritigol o safbwynt anghenion y swydd. Nododd ei bod yn bwysig i liniaru unrhyw risg a fyddai'n gysylltiedig â person di-brofiad yn y maes a thynnodd sylw at y dulliau o wneud hynny. O safbwynt bod y sgiliau craidd critigol ar gyfer y swydd fe ddilynir y cyngor a geir gan yr ymgynghorwyr allanol.

(iii) Nododd aelod ei ddymuniad i uno'r Uned Gofal gyda'r Uned Iechyd .

(iv) Croesawodd aelod arall yr ailstrwythuro a argymhellir gan ei fod yn fodd o leihau'r haen uchaf o swyddogion er creu arbedion. Fodd bynnag, datganodd bryder am y llwyth gwaith i un pennaeth yn enwedig o gymryd trosodd y meysydd hamdden.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr y bydd cylch gorchwyl y pennaeth presennol yn ei swydd newydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn llawer ehangach na'r cylch gorchwyl gyda'r Cyngor hwn gan y byddai'n cynnwys nid yn unig canolfannau hamdden ond lllyfrgelloedd a'r celfyddydau yn ogystal.

(V) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y rôl statudol, hysbysodd y Prif Weithredwr y byddai'n bosibl penodi person i'r swydd heb gymwysterau gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn yn bodoli eisoes mewn rhai cynghorau yng Nghymru. Ni ddylid dynodi'r swyddogaeth statudol ar lefel is na phennaeth gwasanaeth.

(vi) 'Roedd aelod o'r farn y dylid ychwanegu'r geiriau "a fydd yn Swyddog Statudol" at argymhelliad 8.4 o'r adroddiad.

(vii) Cynigiodd aelod welliant sef y dylid hysbysebu'r swydd yn allanol ac y dylai deilydd y swydd fod â'r cymwysterau priodol ym maes gwasanaethau cymdeithasol.

Syrthiodd y gwelliant.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cyfuno'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda rhannau o'r Adran Darparu a Hamdden.**
**b) Trosglwyddo'r rhannau sy'n weddill o'r Adran Darparu a Hamdden i adrannau eraill – yr union fanylion hyn i'w dirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor.**
**c) Bod y swydd newydd sy'n deillio o'r ailstrwythuro i'w hysbysebu'n fewnol.**
**ch) Bod deilydd newydd y swydd, a fydd yn Swyddog Statudol, yn cael mandad i sefydlu strwythur rheoli newydd sy'n cyflawni'r amcanion o integreiddio mewnol ac allanol pellach.**
**d) Cynnal cyfarfod o'r pwyllgor am 3.00 o'r gloch ar 20 Gorffennaf 2012 i lunio'r rhestr fer.**
(Gofynnodd y Cynghorydd Aeron Jones am gael cofnodi iddo atal ei bleidlais).

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben 11.45am